CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc / Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru
https://cyngorplwyf.wixsite.com/llandrillo

Cofnodion cyfarfod Nos Lun, 20fed Mai, 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Mrs. Eira Lewis (C), Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr David Williams, Mrs. Becky Mollison-White, Mrs Rhiannon Jones a Mr John W Jones.

Cyhoedd: Mr Andy Morgan a Mr Delwyn Lewis

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mr Geraint Jones

3. **COFNODION CYFARFOD EBRILL 5ed, 2019**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020** – yr ocsiwn addewidion wedi casglu oddeutu £2,000.
   - **Yr Hen Ysgol** – bydd pwyllgor arall yn cael ei ail drefnu yn y dyfodol agos gyda *Tim Booty*.
   - **Westcotec –** y cynghorwyr yn awyddus i gario ymlaen gyda'r arwyddion, ac i holi a oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Holi Mabon.
   - **Hendwr –** derbyniwyd e-bost gan Adam Turner yn cadarnhau eu bod yn ymchwilio ymhellach i mewn i'r mater o ehangu y parc carafanau, a defnydd y 'Methane Digester'

5. **GOHEBIAETH**
   - **Derbyn Plant i Ysgol Bro Dyfrdwy –** fe ddaeth i sylw y Cynghorwyr yn ystod y mis y bod 5 plentyn wedi gwrthod lle yn yr ysgol mis Medi. Fe ysgrifennwyd e-bost i Judith Greenhalgh, Karen I Evans a Huw Hilditch Roberts i ddatgan pryder y cynghorwyr ac i ofyn iddynt wrthdroi'r penderfyniad. Derbyniwyd y clerc e-bost yn ôl gan Karen Evans yn datgan eu bod wedi cael cyfarfod gyda Eirian Owain y Pennaeth a Mabon ap Gwynfor, ac eu bod nhw yn gallu ein diweddaru ar y mater.
     Y Cyngor yn awyddus i gael cynrychiolaeth o'r Sir i gyfarfod i drafod y mater hwn.

6. **MATERION CYNLLUNIO – Dim Materion**

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Wedi derbyn siec gan P Roberts am gladdu llwch Mr H Phillips
   - Wedi derbyn y tal precept cyntaf £1,107.00

- Amser i talu adnewyddu y ‘bin gwyrdd’ – talu gyda taliad Debyd Uniongyrchol - £24 y flwyddyn
- Tal cyfraniad at gostau rhedeg y toiledau - £888.00
- Ysiwirant – BHIB - £392.36

8. **GDPR – Dim Materion**

9. **MATERION O’R GYMUNED**
   - **Bocs Ffôn –** Aelodau o’r cyhoedd wedi bod yn ei drafod ar tudalen Facebook Llandrillo. Y clerc wedi cysylltu â BT, ac wedi bod allan i atgyweirio y gwydr a’r arwydd ‘TELEPHONE’ ar y bocs. Yn edrych i;w baentio yn y dyfodol.
   - **Enw ychwanegol ar y ‘Senotaph’ (trafodwyd yn Chwefror 2019) -** Wedi derbyn gwybodaeth pellach – yn disgwyl datganiad gan ‘War Memorial’ a ‘ICFP’ cyn ei yrru ymlaen i Edward Roberts.
   - **Safle Bys ger y Berwyn.** Gofyn i’r clwb Ieuenctid os y byddant yn fodlon peintio tu mewn. Cyngor cymuned i dalu am y paent
   - **Trigolion Branas Isa** – 2 neu 3 achos yn ddiweddar o trigolion yn dianc.
   - **Gwrych Tyddyn Llan** – clerc wedi derbyn copi e-bost gan Cyngor sir Ddinbych yn dilyn cyswllt gyda Tyddyn Llan. Dal dim wedi ei neud ir gwrych, felly, clerc i yrru llythyr atynt.
   - **Afon Ceidiog o’r bont B4401 hyd at y bont Haearn** – y coed wedi tyfu, ac angen eu torri. Clerc i gysylltu a ‘Resources Wales’
   - Gwahodd aelodau o **bwyllgor y Cae Chwarae** am ddiweddariad.
   -

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……